

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 15 Chwefror 2021 am 7.30yh  
Trwy Zoom**

## **Presennol:**

Cyng. Lloyd Jenkins (*Cadeirydd*)  
Cyng. Dilwyn Jenkins  
Cyng. Peter Williams  
Cyng. Des Davies  
Cyng. Melanie Davies (clerc dros dro)

Cyng. Eurig Lloyd (*Is Gadeirydd*)  
Cyng. Matthew Morgan  
Cyng. Lyn Jones  
Cyng. Clive Davies (*aelod lleol o'r Cyngor Sir*)

- Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Lloyd Jenkins, bawb i gyfarfod Mis Chwefror.
- Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Llinos Price, y Cyng. Auriol Williams.
- Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.** Cynigwyd gan y Cyng. Matthew Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams bod cofnodion mis Ionawr yn gywir.
- Datgelu buddiannau personol:** Dim
- Materion yn codi:**
  - Cae Gwyrdd Penparc** - AP Pest Control wedi bod allan i waredu'r gwahaddod yng Nghae Gwyrdd a'r cae pêl-droed. Bydd e'n ymweld eto. Roedd Neal Morris, Teifi Landscaping hefyd wedi rhoi pris o £750 i lanhau Cae Gwyrdd. Cytunwyd bod angen gwneud y gwaith hwn cyn y Pasg. Nodwyd efallai y byddai'n werth rhoi cot o baent i'r celfi cyn bo hir, os bydd modd.
  - Torri porfa'r cae pêl-droed** – Trafodwyd llythyr gan y contractwr yn ymwneud â'r contract torri porfa yn y cae. Gan fod costau torri porfa wedi codi cymaint, gofynnwyd am brisiau gan wahanol gwmniau a chytunwyd i roi'r gwaith i'r tendrwr mwyaf rhesymol.
  - Arwyddion Cae Gwyrdd ym Mhenparc** - Cafwyd neges gan yr Asiantaeth Cefnffyrrdd yn gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn talu'r gost am osod yr arwydd. Dywedodd y Cyng. Clive Davies y byddai'n eu holi ynglŷn â hyn.
  - Dyfynbrisiau am yr olygfan** - Roedd dau bris wedi dod i law i osod concrit ym maes parcio'r olygfan. Roedd y prisiau ddaeth i law yn uchel iawn a thrafodwyd yr opsiynau megis gosod concrit neu darmac, gwneud hanner nawr a hanner blwyddyn nesaf, ond roedd pawb yn cytuno bod rhaid gwneud rhywbeth i wella'r cyflwr gan fod y pyllau wedi mynd yn ddwfn. Holwyd ynghylch grantiau ond nid oes llawer o grantiau ar gael ar gyfer y math hyn o beth - Green Spaces o bosibl ond annhebygol. Cytunwyd hefyd bod angen cael eglurhad ynghylch a oedd gan y Cyngor Cymuned hawl i osod concrit. Clerc i holi Arwyn Davies

## **6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.  
Gofal mewn Galar (Cruse Ceredigion)  
Canolfan Therapi Ocsigen Aberteifi  
Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2021

## **7. Cynllunio:**

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A201093	Canllefaes Ganol, Penyparc, Aberteifi, SA43 1SG Codi garej	Cytuno mewn egwyddor ond gofyn am roi cymal 25 mlynedd i beidio â newid y defnydd ohono.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

A210050	Clos y Berllan, Blaenannerch, Aberteifi, SA43 2AD Extension	Dim gwrthwynebiad
---------	---	-------------------

## 8. Materion Ariannol

### Biliau i'w talu:

Lwfans y Cadeirydd	101891	£500.00
Yswiriant Ystafell Berkley	101892	£384.21
David Evans (bariau'r gadwyn)	101893	£37.30
Ken Griffiths (Archwilydd)	101894	£230.00
Cyflog y Clerc (Ionawr 2021)	101895	£385.97
Costau'r Clerc (Ionawr 2021)	101896	£51.17
Zurich Municipal (Yswiriant y Cyngor)	101897	£752.78

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu.

### Materion ariannol eraill:

**Derbyniadau:** Dim

**Balans yn y Banc:-** £17625.41

## 9. Gohebiaeth:

63	Joan Bottom	Carden yn diolch am yr hamper Nadolig	Nodwyd
64	Mr a Mrs Haskell	Llythyr am dipio anghyfreithlon	Hwn yn fater sydd wedi'i ddatrys gan yr heddlu.
65	D E Owen & Sons	Cynnal a chadw Cae Pêl-droed Penyparc	Wedi'i drafod yn 5(b)
66	Rhys Ryland	Arwyddion Cae Gwyrdd Penyparc	Trafodwyd yn 5(c)
67	Tom Delph-Januriak Cyngor Sir Ceredigion	Arwydd i Pengarn Pile	Angen trafod ble i roi'r arwydd gyda'r Cyng. Auriol Williams.
68	Ombudsman Services	Torri'r cyflenwad trydan ac EE	Cafodd y cyflenwad trydan a ffôn symudol EE ei dorri a oedd yn broblem i'r ardal i gyd. Angen anfon llythyr at y Cyng. Ben Lake AS i ofyn iddo ddelio ag Ofcom.
69	Catrin Newbold Cyngor Sir Ceredigion	Crib y Gwynt. Bodlon cwrdd â grŵp bach i drafod y mater	Cytunodd y Cyngorwyr bod angen mynd â'r mater yn uwch. Er enghraift, at Ombwdsmon neu adran Gynllunio Llywodraeth Cymru. Cynigiwyd anfon llythyr gyda chwestiynau penodol i'r Cyngor. Nodwyd bod anghysondeb o ran y cyfyngiadau. Pawb i gyflwyno cwestiynau erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai'r Cyngorwyr Peter Williams, Eurig Lloyd a Lloyd Jenkins yn y cyfarfod.
70	Neal Morris, Teifi Gardens & Landscaping	Pris am dorri porfa'r cae pêl-droed	Nodwyd.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 10. Materion Eraill:

- (a) **Dŵr ar yr hewl** - Nodwyd bod llawer o ddŵr ar yr hewl ar bwys y stablau ym Migni, ger Mwnt. Dywedodd y Cyng. Clive Davies ei fod wedi adrodd hyn i'r Cyngor Sir ond byddai'n holi eto.
- (b) **Blodau** – Nodwyd y byddai'n braf anfon blodau at y Clerc yn dilyn ei damwain diweddar er mwyn dymuno gwellhad buan iddi.

## 11. Adroddiad y Cyngorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

- (a) **Cynllunio** - 2 wedi dod ato gyda gwrthwynebiad i dai ym Maes yr Efail. Un yn awgrymu symud byngalo.
- (b) **Haflys, Gwbert** - Nid oes modd stopio'r datblygiad i ddymchwel y tŷ ac ailgodi tŷ mwy o faint gan fod y cais wedi'i gymeradwyo. Mae wedi llunio adroddiad i'w hanfon at yr ymgeisydd gyda'i sylwadau. Soniodd am yr angen i'r Ddeddf Llesiant gael ei ddefnyddio yn y Cynllun Datblygu Lleol nesaf. Byddai'n dda cael bwriad i gael cwota ar dai haf fel sydd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin a Gwynedd.
- (c) **Sticill** - holodd a oedd hwn wedi'i drwsio ym Mhenyparc. Cadarnhaodd y Cyng. Des Davies nad oedd.
- (ch) **Llwybr** - Soniodd fod y llwybr cerdded o Benyparc i'r dre ar waith. Trafodaethau wedi dechrau gyda'r tirfeddianwyr.
- (d) **Rhaglen Ailnaturioli** - dywedodd fod coed wedi'u plannu ar hyd y gefnffordd ym Mhenyparc ac ar bwys yr ysgol.
- (dd) **Grantiau** - holodd a oedd Ystafell Berkley wedi cael unrhyw grantiau i wella'r adeilad? Cyng. Lyn Jones i holi gan fod Hen Ysgol y Ferwig wedi cael llwyddiant yn hyn o beth.
- (d) **Covid** – nododd fod 15,000 neu 21% yn y sir wedi'u brechu, y garfan 65-69 oed fyddai nesaf.
- (e) **Grant Trefi** - dywedodd fod cynlluniau ar waith i wella'r lle chwarae yn Aberteifi a dyma fyddai ei orchwyl olaf gan fod ei gyfnod fel maer y dref ar gyfer 2020-21 yn dod i ben.

## 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8 Mawrth am 7.30 o'r gloch trwy Zoom

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2021:**

**12 Ebrill 2021**

**10 Mai 2021 (AGM)**

**14 Mehefin 2021**

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 15<sup>th</sup> February, 2021 at 7.30pm Through Zoom

### **Present**

Cllr Lloyd Jenkins (*Chairperson*)  
Cllr Dilwyn Jenkins  
Cllr Matthew Morgan  
Cllr Clive Davies (*Local member of the County Council*)  
Cllr Melanie Davies (Acting Clerk)

Cllr Eurig Lloyd (*Vice-Chair*)  
Cllr Peter Williams  
Cllr Des Davies

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Lloyd Jenkins, welcomed everyone to the February meeting.
- 2. Apologies for absence:** Cllrs Llinos Price, Auriol Williams
- 3. Minutes of the previous meeting.**  
It was proposed by Cllr Matthew Morgan and seconded by Cllr. Peter Williams that the minutes of the January meeting be recorded as correct.
- 4. Declaration of personal interests:** None
- 5. Matters arising:**
  - (a) **Cae Gwyrdd Penparc** – AP Pest Control had been out to get rid of moles at Cae Gwyrdd and at the football pitch. He will visit again. Neal Morris, Teifi Landscaping has provided a price of £750 to clean up Cae Gwyrdd. It was agreed that this work needed doing by Easter. It was noted that it would be beneficial to give the furniture a coat of paint., if possible.
  - (b) **Grass cutting at the football pitch** – The letter from the contractor was discussed with regard to the grass cutting contract at the pitch. As grass cutting costs have increased so much, the council had enquired about prices from different companies and it was decided to offer the work to the most reasonable contractor.
  - (c) **Warning road signs for Cae Gwyrdd** – A message was received from the Trunkroad Agency enquiring whether the Community Council would be willing to pay for the installation of the sign. Cllr. Clive Davies said that he would ask the Agency regarding this.
  - (d) **Quotes for Gwbert Viewpoint** – Two quotes had been received with regard to concreting the viewpoint car park. The prices received were very dear and options were discussed, such as concreting or tarmac, doing one half now and the other next year, but everyone agreed that something must be done in order to improve the condition as the potholes have become deep. The possibility of grants was discussed but there aren't many grants available for this kind of work – Green Spaces a possibility but unlikely. It was also agreed to get clarification in regard to whether the Community Council had the right to concrete the surface. Clerk to ask Arwyn Davies from the Council.

### **6. Requests for Financial Support.**

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Cruse Ceredigion

Cardigan Oxygen Therapy Centre

Urdd Gobaith Cymru National Eisteddfod 2021

### **7. Planning:**

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Community Council's Observations</i>
A201093	Canllefæs Ganol, Penyparc, Cardigan, SA43 1SG	Agree in principle but ask to place a 25-year clause restricting

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

	Erection of garage	change of use.
A210050	Clos Y Berllan, Blaenannerch, Cardigan SA43 2AD Extension	No objection

## 8. Financial Matters.

### Bills to be paid:

Chairperson's allowance	101891	£500.00
Ystafell Berkley Insurance	101892	£384.21
David Evans (chain bars)	101893	£37.30
Ken Griffiths (Auditor)	101894	£230.00
Clerk's Wages (January 2021)	101895	£385.97
Clerk's Costs (January 2021)	101896	£51.17
Zurich Municipal (Council Insurance)	101897	£752.78

It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Peter Williams that the above bills be paid.

### Other Financial Matters:

Balances at the bank: - £17625.41

## 9. Correspondence:

63	Joan Bottom	Thank you card for Christmas Hamper	Noted
64	Mr and Mrs Haskell	Letter regarding fly tipping	Issue resolved by local police
65	D E Owen & Sons	Penyparc Football Pitch Maintenance	Discussed in 5(b)
66	Rhys Ryland	Penyparc Signs for Cae Gwyrdd	Discussed in 5(c)
67	Tom Delph-Januriek Ceredigion County Council	Sign for Pengarn Pile	Need to discuss where to install the sign with Cllr Auriol Williams.
68	Ombudsman Services	Power cut and broken EE signal	Power supply and EE mobile phone signal broke down which caused problems for the whole area. Letter needs to be sent to Cllr. Ben Lake MP asking him to deal with Ofcom.
69	Catrin Newbold Ceredigion County Council	Crib y Gwynt. Prepared to meet with a small group to discuss the issue	Councillors agreed that issue needs to be taken to a higher level. For instance, the Ombudsman or Welsh Government Planning Dept. It was proposed that a letter be prepared with specific questions to the Council. It was noted that there are inconsistencies in terms of restrictions. All should submit questions by the next meeting. It was agreed that Cllrs Peter Williams, Eurig Lloyd and Lloyd Jenkins would attend the meeting.
70	Neal Morris, Teifi Gardens & Landscaping	Price for grass cutting at football pitch.	Noted

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## **10. Other Matters:**

- (a) **Water on road** – A lot of water is present on the road near the stables at Bigni, near Mwnt. Cllr. Clive Davies stated that he had reported this to the County Council but he would ask again.
- (b) **Flowers** – It was noted that it would be a good idea to send the Clerk flowers following her recent accident in order to wish her a speedy recovery.

## **11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:**

- (a) **Planning** – 2 had approached him with objections to houses at Maes yr Efail. One suggestion had been received to move to a bungalow.
- (b) **Haflys, Gwbert** – Development to demolish the house and rebuild a larger property cannot be stopped as the application has been approved. He has written a report which will be sent to the candidate with comments. He mentioned that the Wellbeing Act needs to be used in the next LDP. It would be beneficial to have a quota on summer houses such as those in Carmarthenshire and Gwynedd County Councils.
- (c) **Stile** – he asked whether this had been fixed in Penyparc. Cllr. Des Davies confirmed that it had not.
- (d) **Path** – He mentioned that the footpath from Penyparc into town was imminent. Discussions have started with the landowner.
- (e) **Rewilding Scheme** – trees have been planted near the trunk road at Penyparc and by the school.
- (f) **Grants** – he enquired whether Ystafell Berkley had received any grants to improve the building? Cllr Lyn Jones to ask as Hen Ysgol y Ferwig had been successful with regard to this.
- (g) **Covid** – he noted that 15,000 or 21% of the county had been vaccinated. The 65–69-year-old cohort would be next.
- (h) **Town Grants** – he stated that plans were being implemented to improve the playing area in Cardigan and this would be his last task as his season as town mayor for 2020-21 was coming to an end.

## **12. Date of next meeting:** 8<sup>th</sup> March at 7.30 pm through Zoom

### **Council meetings for 2021:**

**12 April 2021**

**10 May 2021 (AGM)**

**14 June 2021**